



## Genesis

Mae Genesis yn adrodd nifer o storïau am 'ddechreuadau'. Yn wir, ystyr Genesis yw gwreiddyn neu ffynhonnell. Mae'r llyfr yn dechrau drwy adrodd hanes dechrau'r byd, cyn dweud stori cychwyn chwalu'r berthynas rhwng Duw a'r ddynoliaeth. O bennod 12 ymlaen mae Genesis yn adrodd stori arall am ddechreuad: dechrau perthynas newydd rhwng Duw a theulu arbennig - Abram a Sara a'u disgynyddion, gan orffen gyda Joseff gor-wŷr Abram a Sara yn yr Aifft.



## Pa mor hir wnaiff o gymryd?

**Amser darllen:** tua 3 ½ awr  
**Yn brin o amser?** Darllenwch Genesis 1-3; 6-9 yn unig (ond anghofiwch y rhestrau enwau); 12; 18; 25.21-34; 37; 42-45



## Dosbarth

Gelwir yn aml yn 'hanes hynafiaethol' – storïau o'r gorffennol pell.



## Unrhyw beth anodd?

Mae nifer o faterion y gallech eu canfod yn ddyrys

Mae rhai o'r rhain yn cynnwys

- cwestiwn dilysrwydd hanesyddol yr adroddiadau am y greadigaeth a'r dilyw
- yr adroddiad o enedigaethau Ismael ac Isaac a'r gwrthdaro a ddilynodd rhwng eu disgynyddion.

Efallai eich bod hefyd â rhai cwestiynau

- pam fod sarff yn gallu siarad;
- pwy briododd Cain ac Abel
- pwy oedd y Neffilim ( i enwi dim ond ychydig).

Mae Genesis yn codi nifer o gwestiynau cymhleth am yr hyn yw hanes; am ba fath o destunau y credwn mae Genesis yn eu cynnwys, heb sôn am y goblygiadau gwleidyddol cyfoes am y rhwyg rhwng Ismael ac Isaac. Bydd rhaid i chi farnu drosoch eich hun am sut y byddwch yn darllen Genesis a pha synwyr wnewch chi ohono.



## Dyfyniadau i ysbrydoli

<sup>1</sup>Yn y dechreuad creodd Duw y nefoedd a'r ddaear. <sup>2</sup>Yr oedd y ddaear yn afluniaidd a gwag, ac yr oedd tywyllwch ar wyneb y dyfnder, ac ysbryd Duw yn ymsymud ar wyneb y dyfroedd. <sup>3</sup>A dywedodd Duw, "Bydded goleuni." A bu goleuni.  
(Genesis 1.1-3)

Dywedodd Duw, " Gwnawn ddyn ar ein delw, yn ôl ein llun ni, i lywodraethu ar bysgod y môr, ar adar yr awyr, ar yr anifeiliaid gwyllt, ar yr holl ddaear, ac ar bopeth sy'n ymlusgo ar y ddaear."  
(Genesis 1.26)

Bendithiaf di yn fawr, ac amlhau dy ddisgynyddion yn ddirfawr, fel sêr y nefoedd ac fel y tywod ar lan y môr.  
(Genesis 22.17)



## Ynglŷn â'r Awdur

Yn draddodiadol ystyriwyd mai Moses oedd awdur pum llyfr cyntaf y Beibl (Genesis - Deuteronomium); a adwaenir mewn Iddewiaeth fel y Torah ac mewn Cristnogaeth yn aml fel y Pum Llyfr (neu'r pum dysgeidiaeth).

Heddiw byddai llawer o ysgolheigion yn dadlau nad Moses yw awdur y Pum Llyfr ond fod y pum llyfr wedi tyfu dros gyfnod hir o amser ac wedi eu hysgrifennu a'u golygu o draddodiad llafar.

Mae rhai o'r nodweddion, yn arbennig yn llyfr Genesis, yn awgrymu eu bod wedi deillio o wahanol ffynonellau, ble mae storïau'n cael eu hadrodd fwy nag unwaith a ble nad oes cysylltiad cyson (mewn geiriau eraill rydych chi'n cael eich synnu gan y newid pwnc). Efallai yr hoffech chwilio am y rhain a chanfod eich hun wedi'ch synnu gan yr hyn rydych yn ei ddarllen a gweld beth yw eich barn.



## Ynglŷn â'r cyfnod

Gosodwyd Genesis o wawrio amser ymlaen. Mae'r 11 pennod cyntaf yn dweud stori dechreuadau'r byd ac yn aml gelwir hwynt yn 'hanes cynoesol' (h.y. storïau am y cyfnodau cynharaf).

O amser llinach Abram (pennod 12 ymlaen), rydym yn mynd i mewn i hanes mwy gwybyddus – hanes y medrwn ni geisio ei ddyddio. Mae cryn dipyn o drafod ynglŷn â phryd y dylid dyddio Abram ond mae'r rhan fwyaf o ysgolheigion yn awgrymu o gwmpas 1800 CC (yn ystod y Cyfnod Efydd Canol, ychydig gannoedd o flynyddoedd wedi adeiladu Côr y Cewri).

*Llyfrau eraill wedi'u gosod tua'r cyfnod yma*

Dim un mewn gwirionedd (gydag Exodus yn ei ddilyn serch hynny!)



## Pa fath o Lyfr ydy o?

Mwy na thebyg mai dyma'r cwestiwn mwyaf dadleuol y gallwch ei ofyn am Genesis. Bydd rhai yn dadlau fod Genesis yn adroddiad gwyddonol; eraill – fod rhannau o leiaf – yn adlewyrchiadau barddonol, dychmygus; eraill ei fod yn achoseg (h.y. stori i egluro dechreuadau pethau).

Disgrifir Genesis yn aml fel bod yn 'hanes clasurol' gan ei fod yn deud storïau epig am ei gymeriadau



## Sut cafodd ei strwythuro?

1.1-11.26	O'r Creu i Babel
11.27-25.18	Stori Abram a Sara
25.19-36.43	Stori Jacob, Leah a Rachel
37.1-50.26	Stori meibion Jacob, gan gynnwys Joseff



## Cadwch lygad am...

Dywed Genesis nifer o storiâu am ddechreuadau; dechreuad y byd a beth ddigwyddodd ar ôl hynny (pennod 1-11), yn ogystal â dechrau pobl Dduw (12-50). Mae stori dechrau pobl Dduw yn dechrau fel hanes teulu yn Genesis - hanes teuluol Abram a'i ddisgynyddion - a dim ond wedyn mae'n troi'n hanes y bobl i gyd (yn llyfr Exodus). Wrth i chi ddarllen sylwch ar yr elfen o hanes teuluol. Byddaf yn aml yn teimlo fod Genesis 12- 50 yn teimlo fel albwm lluniau teulu ble mae gennych lawer o luniau bach o rai digwyddiadau ac yna bylchau hir cyn y casgliad nesaf o luniau eraill.

Cyflwynir syniadau diwinyddol anferth yn Genesis – wrth i chi ddarllen edrychwch am fendith, cyfamod, etholiad (h.y. Duw yn dewis ei bobl), daioni a phechod, cyfiawnder a ffydd....i enwi dim ond ychydig.



## Beth allai hyn ei olygu i mi?

Mae stori Genesis yn stori am berthynas Duw a dynoliaeth. Wrth i chi ddarllen meddyliwch am y berthynas honno – beth aeth o'i le dro ar ôl tro? Sut y gwnaeth Duw ymateb? A oes rhywbeth i'w ddysgu oddi wrth hyn am ein perthynas ni â Duw heddiw?



## Cwestiynau grŵp trafod

- Wnaethoch fwynhau rhai rhannau o'r llyfr yn arbennig neu a wnaeth y rhannau hyn eich ysbrydoli? (pe baech yn dewis un adnod oedd wedi'ch ysbrydoli, pa un fyddai honno?)
- A oedd rhai rhannau o'r llyfr nad oeddech yn eu hoffi neu oedd yn eich poeni chi?
- Am beth rydych chi'n credu roedd y llyfr yn sôn amdano? Mae llawer o gymeriadau yn Genesis – oedd 'na rai roeddech chi'n gallu perthnasu eich hun iddyn nhw'n fwy nag eraill? Pam?
- Ydych chi'n credu fod unrhyw gymeriad wedi cael ei bortreadu'n annheg? Er enghraifft, cyflwynir Jacob fel un sy'n annibynadwy, na ellid ymddiried ynddo; tra mae'n ymddangos na all Joseff wneud dim o'i le. Ydych chi'n cytuno â'r ffordd mae'r cymeriadau hyn wedi eu portreadu?
- Beth yw eich barn chi am stori'r creu a'r dilyw? Pe baech chi'n siarad â gwyddonydd amheugar, beth fydddech chi'n ei ddweud am sut mae Genesis yn dweud y stori?
- Mae thema bendith yn aml yn cael ei nodi fel rhywbeth pwysig yn llyfr Genesis – wnaethoch chi sylwi ar unrhyw beth am y ffordd mae'n cael ei ddefnyddio drwy'r llyfr cyfan?
- Wnaethoch chi ddarllen unrhyw beth yn y llyfr wnaeth eich cyffwrdd, ehangu eich ffydd neu wneud i chi feddwl yn ddyfnach am eich bywyd a sut rydych yn ei fyw?



Gallwch drydar lluniau, storiâu neu gwestiynau o'ch clwb llyfrau gan ddefnyddio'r hashnod [#clwblyfrauibeibl](#) a tag [@cymybeibl](#).

**Dod** â'r Beibl yn **fyw**

**B** Cymdeithas  
y Beibl